# Ymgyrch Recriwtio Flynyddol Ymchwilydd Cymdeithasol y Llywodraeth:

## Uwch-ymchwilydd Cymdeithasol a Swyddog Ymchwil

Mawrth 2026

# Cynnwys

Croeso ........................................................................ 3
1. Trosolwg o’r canllawiau ........................................................ 4
2. Proffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ................. 5
3. Gweithio i Lywodraeth Cymru ............................................... 8
4. Sut i Wneud Cais ................................................................ 12
ATODIAD – eich helpu i baratoi ............................................. 24

# Croeso

Diolch ichi am eich diddordeb yn swyddi ymchwil Llywodraeth Cymru

Rwy'n falch iawn bod gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am ein rolau Ymchwil Gymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru. Mae'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu polisïau cenedlaethol ar gyfer Cymru ac mae'n gweithio ar draws meysydd datganoledig sy'n cynnwys meysydd allweddol o fywyd cyhoeddus megis iechyd, addysg a'r amgylchedd.

Mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi’u lleoli mewn adran ganolog o'r enw **Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS)** sydd hefyd yn cynnwys ystadegwyr. Mae ychydig dros chwarter y proffesiwn ymchwil cymdeithasol yn gweithio mewn swyddi eraill o fewn adrannau polisi.

Mae'r amrywiaeth eang o bwerau datganoledig Llywodraeth Cymru yn caniatáu i Ymchwilwyr Cymdeithasol weithio ar draws ystod o feysydd polisi. Mae'r gwaith yn gyflym a bydd yn eich galluogi i ddatblygu eich sgiliau dadansoddol drwy gymryd rhan mewn ymchwil i gefnogi timau polisi a Gweinidogion. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gwerthuso polisïau sy'n cael eu gweithredu
- Cynnal dadansoddiad o effaith neu ddadansoddiadau dichonoldeb ar bolisi y gellir ei weithredu yn y dyfodol
- Darparu tystiolaeth ar gyfer tîm polisi
- Ymchwil i gwmpasu agweddau'r cyhoedd tuag at faterion allweddol
- Lledaenu canfyddiadau ymchwil
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i greu systemau monitro a gwerthuso newydd i fonitro rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Gellid gwneud hyn drwy ddulliau ymchwil ansoddol a meintiol. Mae llawer o brosiectau ymchwil yn Llywodraeth Cymru wedi'u contractio allan i gwmnïau ymchwil, felly mae rhywfaint o waith rheoli contractau yn gysylltiedig â'r rôl. Yn dibynnu ar y tîm ymchwil, yn aml bydd gofyn am ryngweithio â sefydliadau'r trydydd sector, academyddion ac adrannau eraill y Llywodraeth. Gan fod Llywodraeth Cymru yn cwmpasu llawer o feysydd polisi, mae cyfleoedd i symud o gwmpas i weithio o fewn gwahanol feysydd polisi.

Canfyddwch mwy am yrfaoedd Ymchwil Gymdeithasol yn Llywodraeth Cymru ar ein [tudalen Gyrfaoedd](#).

Os ydych yn credu bod gennych y sgiliau cywir i'n helpu, yna hoffem glywed gennych.

**Catrin Awoyemi and Rebecca Sarasin**

**Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol, Llywodraeth Cymru**

# 1. Trosolwg o'r canllawiau

Rydym yn chwilio am bobl frwdfrydig a galluog o bob cefndir. Nid yw profiad blaenorol fel gwas sifil yn ofynnol. Rydyn ni eisiau pobl sy'n gallu dod â phrofiadau bywyd gwahanol i'n penderfyniadau ac sy'n ffynnu mewn timau cydweithredol a fydd yn helpu i newid y ffordd rydyn ni'n meddwl.

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys trosolwg o'r sefydliad a'r Proffesiwn Ymchwil Gymdeithasol o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau hyn wedi eu cynllunio i roi awgrymiadau defnyddiol i'ch helpu i wneud cais am swyddi gwag Ymchwil Gymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys;

- llenwi ffurflen cais, gan gynnwys enghreifftiau o Ymddygiadau a Phrofiadau Proffil Llwyddiannus;
- y broses asesu, gan gynnwys cyfweliad, ymarfer briffio llafar a Phrawf Gwybodaeth GSR.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr wybodaeth yn y canllawiau hyn neu'r broses ymgeisio, cysylltwch â'r Ganolfan Gydwasanaethau ar 0300 025 5454 neu drwy e-bost (desggymorthcydwasanaethau@llyw.cymru).

**Egwyddorion Recriwtio i'r Gwasanaeth Sifil**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i'r egwyddorion recriwtio a nodir yn Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

Y prif egwyddorion yw:

- Caiff unigolion eu dewis ar sail teilyngdod, a chystadleuaeth deg ac agored: bydd digon o wybodaeth am y swydd a'i gofynion, ac am y broses ddewis, ar gael i bob darpar ymgeisydd; yr un wybodaeth fydd ar gael i bob un; bydd mynediad rhesymol iddi; a chaiff yr ymgeiswyr eu hystyried, fel ei gilydd, ar sail eu teilyngdod ym mhob cam o'r broses.
- Bydd y broses yn seiliedig ar feini prawf cyson sy'n berthnasol i'r swydd, ac fe'u defnyddir yn gyson yn achos pob ymgeisydd; bydd y dulliau dewis yn ddibynadwy ac yn sicrhau na ddangosir ffafriaeth.
- Bydd pob ymarfer recriwtio allanol i swyddi parhaol yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn, gan gynnwys y gofyniad bod yn rhaid gwneud penodiadau parhaol ar sail teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored, yn unol â Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010.

# 2. Proffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) yw proffesiwn ymchwil gymdeithasol y Gwasanaeth Sifil. Mae aelodau GSR ym mhob un o adrannau'r llywodraeth, ac yn Llywodraeth Cymru mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr cymdeithasol wedi'u lleoli mewn adran ganolog, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS), sydd hefyd yn cynnwys ystadegwyr. Mae nifer o ymchwilwyr cymdeithasol hefyd yn gweithio mewn swyddi o fewn timau polisi.

Mae'r amrywiaeth eang o bwerau datganoledig Llywodraeth Cymru yn caniatáu i ymchwilwyr cymdeithasol weithio ar draws ystod o feysydd polisi. Mae'r gwaith yn gyflym a bydd yn eich galluogi i ddatblygu eich sgiliau dadansoddol drwy gymryd rhan mewn ymchwil i gefnogi timau polisi a gweinidogion. I wneud hyn, gall eich rôl gynnwys rhai o'r canlynol:

- Rheoli mewnol neu reoli drwy gontractau werthusiadau ar gyfer polisïau sy'n cael eu gweithredu yn y dyfodol;
- Cynnal dadansoddiad o effaith neu ddadansoddiadau dichonoldeb ar bolisi y gellir ei weithredu yn y dyfodol;
- Darparu tystiolaeth fewnol (e.e. adolygiadau o ddogfennau neu brosiectau ymchwil ar raddfa fach) ar gyfer tîm polisi;
- Darparu dadansoddiad ystadegol mewnol ar ddata arolwg omnibws;
- Rheoli contractau sefydliadau allanol i gynnal arolygon;
- Darparu rheolaeth fewnol neu reolaeth drwy gontractau ar ymchwil i gasglu agweddau'r cyhoedd tuag at faterion allweddol;
- Lledaenu canfyddiadau ymchwil i gydweithwyr polisi a chwsmeriaid eraill;
- Cysylltu'n agos â staff eraill ar draws Llywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth a datblygu arbenigedd;
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i greu systemau monitro a gwerthuso newydd i fonitro rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Gellid gwneud hyn drwy ddulliau ymchwil ansoddol a meintiol. Mae ein hymchwilwyr yn manteisio ar wybodaeth feintiol ac ansoddol yn eu rolau.

Mae llawer o brosiectau ymchwil yn Llywodraeth Cymru wedi'u contractio allan i gwmnïau ymchwil, felly mae rhywfaint o reoli contractau yn gysylltiedig â'r rôl. Yn dibynnu ar y tîm ymchwil, yn aml mae angen rhyngweithio â sefydliadau'r trydydd sector, academyddion ac adrannau eraill y Llywodraeth. Gan fod Llywodraeth Cymru yn cwmpasu llawer o feysydd polisi, mae cyfleoedd i symud o gwmpas i weithio o fewn gwahanol feysydd polisi.

Asesir ymgeiswyr ar gyfer rolau GSR gan ddefnyddio dull Proffil Llwyddiant y Gwasanaeth Sifil o recriwtio. Mae Fframwaith Technegol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth wedi'i gynhyrchu i gyd-fynd â phroffiliau llwyddiant, ac mae'n rhoi mwy o

wybodaeth am y sgiliau technegol a chyfathrebu sydd eu hangen ar gyfer graddau Swyddog Ymchwil (HEO) ac Uwch-swyddog Ymchwil (SEO).

Rydym yn chwilio am geisiadau gan ymgeiswyr amrywiol sy'n gallu dod â phrofiadau byw, sgiliau a safbwyntiau newydd i'n gwaith.

**Dyma beth sydd gan ein hymchwilwyr i'w ddweud am eu gwaith…**

**Swyddogion Ymchwil**

Tîm Dadansoddi Polisi Cynnig Gofal Plant – Yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

> “Dyma rôl ymchwil o fewn tîm polisi yn yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar. Rwy'n gyfrifol am reoli contractau ymchwil i werthuso polisi Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys arolygon, cyfweliadau manwl a grwpiau ffocws.”
>
> “Rwy'n gallu sicrhau bod gwaith gwerthuso yn addas i'r diben ac yn rheoli'r berthynas rhwng gofynion polisi a beth mae'r contractwr ymchwil yn gallu ei gyflawni. Mae'r rôl hefyd yn caniatáu i mi weithio'n agos gydag awdurdodau lleol sy’n darparu’r rhaglen a grwpiau rhanddeiliaid. Rwyf wedi cyflwyno gwaith gwerthuso ar sawl achlysur i amrywiaeth o randdeiliaid. Mae cael gweithio mor agos gyda thîm polisi sydd â gwir ddiddordeb mewn penderfyniadau sy’n seiliedig ar dystiolaeth wedi bod yn brofiad gwych. Rwyf hefyd yn mwynhau gallu gweithio’n agos ar bolisi penodol oherwydd fy mod, drwy fy ngwybodaeth am y maes polisi a'r ymchwil diweddar a chyfredol ar y polisi, yn gallu gweithio gyda'm tîm i nodi unrhyw feysydd a fyddai'n elwa o ymchwil bellach.”

Rhaglen Ymchwil Mewnol – Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

> “Yn y swydd hon, fy ngwaith i yw ymgymryd â phrosiectau ymchwil ar raddfa fach ar ran adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru, gan gymryd rôl debyg i ymgynghoriaeth ymchwil fewnol. Mae hyn yn gyfle cyffrous i gynnal ymchwil uniongyrchol ac i brofi prosiectau ymchwil mewn ffordd sy'n unigryw ymhlith y rhan fwyaf o swyddi'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, tra'n rhoi cipolwg ar y gwaith amrywiol sy'n digwydd ar draws gwahanol feysydd Llywodraeth Cymru.”

**Uwch-swyddogion Ymchwil**

Tîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy – Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

> “Rwy'n gweithio yn y tîm ymchwil dyfodol cynaliadwy sy'n diwallu anghenion ymchwil ystod eang o feysydd polisi gan gynnwys cyfarwyddiaethau amgylcheddol, morol, tir, natur a bwyd. Mae hyn yn golygu ystod eang o ofynion ymchwil, perthnasoedd polisi i'w meithrin a chontractau ymchwil i'w rheoli. Yn ystod yr ychydig fisoedd rwyf wedi bod yn y rôl, rwyf wedi gallu gweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth y DU fel BEIS ar gontractau ymchwil ar y cyd a chynghori Prif Swyddog Gwyddonol Cymru ar gwestiynau arolwg.”
>
> “Ar hyn o bryd, rwy’n rheoli contractau ymchwil mewn gwahanol feysydd o fewn Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig, ac rwy'n mwynhau’r natur gyflym o rannu fy amser rhwng sawl darn o ymchwil. Mae'r rôl hon yn rhoi cyfle i mi

hyrwyddo gwerth ymchwil i gwsmeriaid polisi a rhoi cyngor ar y dulliau mwyaf priodol o gyflawni nodau polisi. Yr hyn sy’n hynod o gyffrous am y swydd yw’r cyfle i wneud gwaith ymchwil mewn meysydd polisi proffil uchel fel Coedwig Genedlaethol Cymru.”

Tîm Addysg, Sgiliau a'r Gymraeg – Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

“Rwy’n rheoli’r gwaith o ddatblygu a rhedeg nifer o brosiectau ymchwil a gwerthuso sy’n ymwneud ag ysgolion. Rwy’n mwynhau rheoli’r amrywiaeth eang o brosiectau ymchwil, yn ogystal â gweithio gyda gwahanol arweinwyr polisi i ddeall eu hanghenion ymchwil a chynllunio’r prosiectau ymchwil mwyaf priodol. Yr hyn sy’n hynod o werth chweil am y swydd yw fy mod yn gallu rheoli datblygiad prosiect ymchwil o’r cyfarfodydd cwmpasu cynnar gyda chydweithwyr polisi, yr holl ffordd at gyhoeddi adroddiad ymchwil sy’n cefnogi’r penderfyniadau polisi’n uniongyrchol. Ar hyn o bryd, rwy’n gweithio ar brosiectau ymchwil proffil uchel, sy’n cynnwys cefnogi’r rhaglen Adnewyddu a Diwygio, yn ogystal â’r rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.”

# 3. Gweithio i Lywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb flynyddol o ryw £27.5 biliwn, ac mae'n gyfrifol am ystod o feysydd gan gynnwys iechyd, addysg a sgiliau, yr economi a thrafnidiaeth, ac amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Prif Weinidog Cymru a'i Gabinet yw Llywodraeth Cymru ac maent yn gwneud penderfyniadau mewn meysydd o gyfrifoldeb datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru yn atebol i Senedd Cymru, corff deddfwriaethol Cymru sy'n cynnwys 60 o Aelodau etholedig. Bydd hyn yn cynyddu i 96 o aelodau yn dilyn etholiadau'r Senedd yn 2026.

Mae rhyw 5,500 o weision sifil yn cefnogi Gweinidogion Cymru, gydag oddeutu hanner ohonynt yn gweithio yng Nghaerdydd, a'r gweddill yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled y wlad. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd bach hefyd yn Llundain, Brwsel a swyddfeydd dramor sy'n canolbwyntio ar waith masnachu a buddsoddi. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru.

Ein nod yw helpu Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru i adeiladu Cymru decach, wyrddach a mwy cyfartal.

**Strwythur y Sefydliad**

**Y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau –** Mae'r Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau yn canolbwyntio ar ddatblygu sefydliad hyderus, medrus a gwydn, yn ogystal â rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion a gweddill y sefydliad.

**Y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig –** Mae'r Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn cefnogi ystod eang o feysydd polisi, gan gynnwys newid hinsawdd, seilwaith, materion gwledig a thai ac adfywio.

**Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth –** Mae grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth yn gyfrifol am gynghori ar faterion polisi yn ymwneud â'r economi, y celfyddydau a chwaraeon, a chyllid. Mae hefyd yn gyfrifol am Drysorlys Cymru, busnes a rhanbarthau, a gwyddoniaeth ac arloesi.

**Y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg** – Mae'r Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg yn gyfrifol am helpu i greu gwasanaethau addysg, gwasanaethau Cymraeg a gwasanaethau cyhoeddus effeithlon.

**Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar –** Mae'r Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar yn cynghori Llywodraeth Cymru ar bolisïau a strategaethau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gan gynnwys Cafcass Cymru

**Grŵp y Prif Weinidog** – Mae Grŵp y Prif Weinidog yn arwain ar ddarparu gwasanaethau i'r Prif Weinidog, Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion

**Amrywiaeth a Chydraddoldeb**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'r egwyddorion hyn yn seiliedig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac maent yn cael eu cynnal yn ystod pob cam o'r broses recriwtio. Ein nod yw sicrhau bod y gwerthoedd hyn yn rhan annatod nid yn unig o'n prosesau recriwtio, ond hefyd o'n harferion gwaith bob dydd gyda chwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid. Rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ar draws y sefydliad, dileu rhwystrau a chefnogi pob aelod o staff i wireddu eu potensial llawn.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb, waeth beth fo'u hoedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas gyfartal a phriodas rhwng pobl o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, amhariad neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth.

Rydym yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ac rydym yn eu rhestr o'r 100 cyflogwr uchaf gan ennill gwobr Aur yn 2023. Rydym yn sefydliad Hyderus o ran Anabledd (Arweinydd). Rydym wedi llofnodi Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr, Siarter Hil yn y Gwaith Busnes yn y Gymuned ac addewid Pledge to be Seen gan Changing Faces sy'n cefnogi pobl â gwahaniaeth gweladwy. Mae pum Rhwydwaith Staff sy'n cael eu noddi gan y Bwrdd yn allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ac er mwyn rhoi cefnogaeth gan gymheiriaid, sef (Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd (DAAS); Materion y Meddwl; Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig (MESN); PRISM (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Drawsryweddol, Ryngryw +) a Menywod Ynghyd).

**Recriwtio dienw**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu proses recriwtio ddienw. Ni fydd y panel recriwtio yn gweld gwybodaeth bersonol fel enw a chyfeiriad ymgeisydd yn ystod y broses sifftio. Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i ddileu rhagfarn a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Hyderus o ran anabledd**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu mewn modd sy'n anablu pobl ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu ddarpar aelod o staff) berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Mae Llywodraeth Cymru yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. Fel rhan o'n hymrwymiad i'r cynllun hwn, rydym yn cyfweld ag unrhyw ymgeisydd sydd ag amhariad, cyflwr iechyd, sy'n niwrowahanol neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain os yw'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd (a ddiffinnir fel arfer fel sgôr o 4 o leiaf ar gyfer pob maen prawf). Dylai ymgeiswyr cymwys roi tic yn y blwch perthnasol ar y ffurflen gais os ydynt yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer y cynllun hwn. Ar ôl y cam asesu cyn y cyfweliad, bydd y Tîm Recriwtio yn hysbysu'r

panel am unrhyw ymgeiswyr cymwys sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ond na chawsant eu dewis yn wreiddiol am gyfweliad.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu pobl anabl yn eu swydd a'u gyrfa. Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac os hoffech drafod addasiadau i'ch cefnogi yn ystod unrhyw ran o'r broses recriwtio - neu archwilio sut y gallwn eich cefnogi os byddwch yn llwyddiannus - e-bostiwch DesgGymorthCydwasanaethau@llyw.cymru cyn gynted â phosibl. Bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych. Hefyd, gallwch gysylltu â'r Tîm Amrywiaeth mewn Recriwtio yn uniongyrchol am gyngor cyfrinachol.

**Gweithle gwych i gyn-aelodau'r lluoedd arfog**

Os ydych wedi cwblhau o leiaf flwyddyn yn Lluoedd Arfog Ei Fawrhydi - naill ai fel aelod parhaol neu aelod wrth gefn - ac yn trosglwyddo o'r Lluoedd Arfog, neu os nad ydych yn aelod mwyach, gallwch wneud cais am swydd yn y Gwasanaeth Sifil o dan y fenter Gweithle Gwych i Weithio i Gyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog. Fel rhan o'n hymrwymiad i'r cynllun hwn, rydym yn cyfweld ag unrhyw ymgeiswyr cymwys sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd (sy'n cael eu diffinio fel arfer fel sgôr o 4 o leiaf ar gyfer pob maen prawf). Os hoffech gael eich ystyried o dan y fenter hon, dylech roi tic yn y blwch perthnasol ar y ffurflen gais.

**Cynllun cyfweliad adleoli**

Gall cyflogwyr y Gwasanaeth Sifil gynnig cyfweliad i nifer teg a chymesur o weision sifil y mae eu swydd mewn perygl o gael ei dileu ac sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd (sy'n cael eu diffinio fel arfer fel sgôr o 4 o leiaf ar gyfer pob maen prawf). Er enghraifft, efallai y bydd eich swydd mewn perygl os yw eich maes gwaith wedi dechrau cynllun diswyddo gwirfoddol neu orfodol yr ydych yn gymwys ar ei gyfer, neu os ydych yn ymwybodol bod eich cyflogwr wedi dechrau ymgynghori ar sut i leihau nifer y staff yn eich tîm neu'ch maes gwaith. Os hoffech gael eich ystyried o dan y cynllun hwn, dylech roi tic yn y blwch perthnasol ar y ffurflen gais.

**Y Gymraeg**

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio'n rheolaidd yn ein bywydau a'n gweithleoedd bob dydd. Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae mesurau ar waith i sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi ei weledigaeth ar gyfer dyfodol yr iaith yn ein strategaeth Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr. Gweledigaeth y Llywodraeth hon yw gweld nifer y bobl sy'n gallu siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Mae hefyd am ddyblu canran y bobl sy'n defnyddio'r iaith bob dydd.

Fel sefydliad, mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth i'r cyhoedd yn Gymraeg, er enghraifft darparu gohebiaeth a chylchlythyrau dwyieithog ac ateb y ffôn yn ddwyieithog. Nodir y manylion yn Safonau'r Gymraeg.

Mae’r safonau hefyd yn sicrhau bod gwasanaethau mewnol ar gael yn Gymraeg i gyflogeion, megis: mewnrwyd ddwyieithog, dogfennau Adnoddau Dynol, offer TG i'n helpu i weithio'n ddwyieithog.

Rydym am gefnogi ein cyflogeion i wella eu sgiliau iaith ar bob lefel. Mae gennym lawer o gyfleoedd i’n staff ddechrau dysgu neu loywi’r sgiliau sydd ganddynt eisoes. Mae ein strategaeth ar gyfer gweithio’n ddwyieithog, Cymraeg. Mae’n perthyn i ni i gyd yn nodi ein huchelgais i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2050. Ein nod cychwynnol yw dod yn sefydliad sy’n dangos esiampl o ran ein defnydd o’r iaith dros y pum mlynedd nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru felly’n cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynyddu ei gweithlu dwyieithog. Mae croeso i chi wneud cais am unrhyw swydd yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd ceisiadau a wneir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na’r rhai a wneir yn Saesneg. Gallwch hefyd ofyn am gyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg a delio â ni drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol y broses recriwtio.

# 4. Sut i Wneud Cais

**Cam 1: Y Broses Ymgeisio**

Caiff y rhan fwyaf o swyddi Llywodraeth Cymru eu hysbysebu ar dudalennau Recriwtio ein gwefan. Dewiswch ‘Swyddi Gwag’ i weld y gwahanol fathau o gyfleoedd sydd ar gael gyda Llywodraeth Cymru. Bydd hysbysebion swyddi yn cynnwys disgrifiad o’r swydd ac yn nodi’r meini prawf ymddygiad (yr ymddygiadau a’r sgiliau craidd) a’r profiad hanfodol sy’n ofynnol ar gyfer y swydd, ynghyd ag unrhyw ofynion eraill fel cymwysterau penodol. Bydd yr hysbyseb hefyd yn rhoi manylion unrhyw ddull asesu arall a gynhelir yn ystod yr ymarfer recriwtio yn ogystal â’r cyfweliad. Bydd hefyd yn amlinellu telerau ac amodau cyffredinol y swydd, fel y cyflog.

**Cynllunio eich Cais**

Cyn ichi wneud eich cais, darllenwch yr hysbyseb a’r disgrifiad swydd yn ofalus a sicrhau bod gennych ddigon o dystiolaeth o’r sgiliau craidd, a’r meini prawf ymddygiadau a phrofiad ar gyfer y swydd. Rhaid ichi hefyd sicrhau eich bod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Os na fyddwch yn gallu rhoi digon o dystiolaeth i’r panel, ni chewch eich galw am gyfweliad. Dim ond ymgeiswyr a ystyrir yn abl ym mhob un o’r meysydd a brofir (sef meini prawf gofynnol y swydd at ddibenion y Cynllun Gwarantu Cyfweliad) a gaiff symud ymlaen ymhellach na’r sifft (y rhestr fer) a/neu’r cam asesu. Dylech gynllunio cwblhau eich cais gan gadw mewn cof y dyddiad cau ar gyfer y swydd wag ac unrhyw anawsterau technegol posibl wrth ddefnyddio’r system ar-lein, gan nad oes modd newid y dyddiad (ac eithrio lle bydd addasiad rhesymol yn briodol a lle cytunir ar hynny ymlaen llaw).

**Cymorth wrth lenwi’r Ffurflen Gais**

Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi enghreifftiau sy’n dangos orau yr ymddygiadau cymwyseddau perthnasol a’r meini prawf sy’n benodol i’r swydd ac sy’n ofynnol. Cofiwch mai eich cais chi yw hwn, ac mai chi, felly, ddylai ei lenwi. Cofiwch mai eich cais chi yw hwn, ac mai chi, felly, ddylai ei lenwi. Os cewch gyfweliad neu os symudwch ymlaen i asesiad arall, cewch eich holi ymhellach am yr hyn rydych wedi’i ysgrifennu. Ni ddylech holi cyngor unrhyw un a fydd yn rhan o’r broses ddewis, yn enwedig aelodau o’r panel dewis. Fodd bynnag, cewch ofyn am gymorth am reswm sy’n ymwneud ag anabledd, gan gynnwys cymorth eiriolwr i lenwi’r ffurflen mewn amgylchiadau priodol.

Mae croeso ichi lenwi’r ffurflen gais yn Gymraeg neu yn Saesneg. Yn achos swyddi lle mae angen sgiliau Cymraeg, darllenwch y disgrifiad a’r hysbyseb swydd yn ofalus i weld a oes angen ateb rhai cwestiynau yn Gymraeg er mwyn profi’r sgiliau hynny.

**Deallusrwydd Artiffisial**

Gall Deallusrwydd Artiffisial fod yn adnodd defnyddiol i gefnogi'ch cais, fodd bynnag, rhaid i'r holl enghreifftiau a datganiadau a ddarperir fod yn wir, yn ffeithiol gywir ac yn dod yn uniongyrchol o'ch profiad eich hun. Pan fo llên-ladrad wedi'i nodi (cyflwyno syniadau a phrofiadau pobl eraill, neu rai wedi'u cynhyrchu gan ddeallusrwydd

artiffisial, fel eich rhai eich hun) gellir tynnu ceisiadau yn ôl a gall ymgeiswyr mewnol wynebu camau disgyblu. Gweler ganllawiau'r Gwasanaeth Sifil ar AI i ymgeiswyr i gael rhagor o wybodaeth am ddefnydd priodol ac amhriodol.

**System E-Recriwtio**

Caiff y rhan fwyaf o swyddi Llywodraeth Cymru eu hysbysebu drwy ein system e-recriwtio. Gallwch fynd i hon drwy'r dudalen Recriwtio ar y rhyngrwyd.

I weld yr holl gyfleoedd gwahanol sydd gan Lywodraeth Cymru, ewch i'r dudalen Recriwtio ar y rhyngrwyd, a dewis y math o swydd rydych yn chwilio amdano.

Gallwch dracio hynt eich cais drwy'r system recriwtio ar-lein, yn eich Canolfan Geisiadau.

**Addasiadau recriwtio**

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, os ydych yn niwrowahanol neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut y byddem yn eich cefnogi pe baech yn llwyddiannus, e-bostiwch recriwtio.ymchwilcymdeithasol@llyw.cymru cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

**Cynllun Gwarantu Cyfweliad**

Mae'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad yn rhoi'r hawl i unigolion sydd ag amhariadau neu gyflyrau iechyd symud ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os ydynt yn bodloni'r meini prawf gofynnol yn y cam sifftio. I wneud cais o dan y cynllun hwn, nodwch hynny o dan yr adran 'Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl' yn y ffurflen gais. Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf gofynnol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol. Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl.

**Gwneud cais yn Gymraeg**

I weld manylion swydd yn Gymraeg, cliciwch ar 'Change Language / Newid Iaith' ar frig y dudalen ar yr ochr dde. Os hoffech wneud cais yn Gymraeg, cliciwch ar 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen. Cofiwch, unwaith byddwch wedi dechrau cais yn Gymraeg, ni fyddwch wedyn yn gallu newid i wneud cais am y swydd honno yn Saesneg, gan ddefnyddio'r un cyfrif defnyddiwr. Os cewch unrhyw broblemau, neu os bydd gyda chi gwestiwn am y broses, cysylltwch â'r Ganolfan Gydwasanaethau ar 029 20 82 5454 neu drwy e-bost (desggymorthcydwasanaethau@llyw.cymru).

**Creu cyfrif defnyddiwr newydd**

Unwaith byddwch wedi dewis 'Gwneud cais', fe welwch y sgrîn fewngofnodi. Os nad oes gyda chi gyfrif ymgeisydd eisoes, bydd angen ichi ddewis 'Creu Cyfrif Newydd'.

Fe welwch hwn o dan y manylion mewngofnodi. Unwaith byddwch wedi gwneud hyn, nodwch eich manylion a darllen y telerau a’r amodau.

**Oeddech chi’n gwybod?**

Gallwch gofrestru i gael gwybod am swyddi gwag yn eich Canolfan Geisiadau. Byddwn wedyn yn anfon manylion swyddi sy’n cyfateb i’ch meini prawf i’r cyfeiriad ebost a gofrestrwyd gennych. Dewiswch ‘Creu Rhybudd Swydd’ ar waelod y bwrdd swyddi.

**Diweddaru eich Cais**

Unwaith y byddwch wedi gwneud cais am swydd, byddwch yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt eich cais drwy eich cyfeiriad e-bost cofrestredig. Gallwch hefyd ddilyn hynt eich cais hefyd drwy fewngofnodi i’ch cyfrif a mynd i ‘Fy Ngheisiadau’ ar frig y dudalen ar ôl ichi fewngofnodi.

## Llywio’ch ffordd drwy’r ffurflen gais

Mae’r meysydd â seren ‘*’ yn orfodol, felly rhaid ichi eu llenwi neu ni fyddwch yn gallu cyflwyno eich cais. Os nad oes ‘*’, nid yw’r maes hwnnw’n orfodol, gan nad yw’n berthnasol i bob ymgeisydd efallai. Ond os oes gyda chi wybodaeth y gallech ei rhoi mewn ymateb i gwestiwn, gwnewch hynny, gan y bydd cael cymaint o wybodaeth â phosibl am bob maes yn helpu’r panel sifftio i greu darlun cyflawn o’ch sgiliau, eich profiad a’ch gwybodaeth.

Unwaith byddwch wedi ateb pob cwestiwn ar y dudalen, dewiswch ‘Parhau’. (Bydd hyn yn arbed atebion y dudalen honno.) Pwyswch ‘Yn ôl’ ar unrhyw adeg i fynd yn ôl i’r dudalen flaenorol. Fel arall, gallwch ddewis tudalen benodol rydych am fynd yn ôl iddi drwy glicio ar ddolen i’r dudalen yn Tracio Cynnydd ar y chwith.

**Tracio Cynnydd**

Mae tic gwyrdd nesaf at adran yn dangos eich bod wedi ateb pob cwestiwn yn yr adran honno. Mae tic oren yn dangos eich bod wedi ateb pob cwestiwn gorfodol yn yr adran honno. Mae croes yn nodi nad ydych wedi ateb rhai cwestiynau gorfodol ac na ellir cyflwyno’r cais, felly.

Nid oes rhaid ichi lenwi’r ffurflen gais gyfan ar unwaith. Unwaith byddwch wedi llenwi rhan ohoni, cliciwch ‘Parhau’ i arbed popeth rydych wedi’i ysgrifennu yn y rhan honno. Gallwch wedyn allgofnodi o’ch cyfrif a mynd yn ôl at eich cais anorffenedig ar unrhyw adeg hyd at ddyddiad cau’r cais. I anfon y ffurflen gais yn ôl, mewngofnodwch i’ch cyfrif, dewiswch ‘Fy ngheisiadau’ a chliciwch ar deitl y swydd berthnasol. Dylai fod wedi’i nodi o dan hanes eich ceisiadau.

## Llenwi’r Ffurflen Gais

### Llenwi’r adran “Meini Prawf Profiad a Thystiolaeth o Ymddygiad Proffil Llwyddiant”

**Dyma ran bwysicaf eich cais.** Gofynnir ichi roi tystiolaeth o sut rydych chi’n bodloni’r meini prawf profiad ac ymddygiadau Proffil Llwyddiant y nodir eu bod yn hanfodol i’r rôl. Dyma'r fframwaith newydd ar draws y Llywodraeth sy'n defnyddio nifer o wahanol “elfennau” (Profiad, Cryfderau, Gallu, Technegol ac Ymddygiadau) i

bennu ein dulliau dethol recriwtio. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: Proffiliau Llwyddiant.

Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn darllen yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r broses asesu cyn dechrau ar eich cais. Bydd y panel yn edrych ar ba mor dda y mae'r dystiolaeth rydych wedi'i darparu yn dangos eich bod yn bodloni gofynion y rôl.

**Meini Prawf Profiad**

Mae'r rhain yn feini prawf a nodwyd gan y Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol gan eu bod yn hanfodol i'r Proffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y mae'r rolau hyn yn perthyn iddynt. Byddant yn cynnwys sgiliau, profiad neu wybodaeth benodol sy'n berthnasol i'r proffesiwn a rolau. Gofynnwn hefyd am gymhwyster penodol sy'n berthnasol i'r rôl. Bydd angen ichi roi tystiolaeth ar gyfer tri maen prawf penodol (oni bai bod yr hysbyseb swydd yn nodi'n wahanol). Dylech ddangos sut rydych yn bodloni'r meini prawf profiad a restrir yn yr hysbyseb drwy dynnu ar eich profiad blaenorol, eich gwybodaeth a'r hyn rydych wedi'i gyflawni, gan roi crynodeb sy'n dangos eich bod yn bodloni'r meini prawf. Mae'r rhan hon o'r ffurflen gais yr un mor bwysig, ac os na fyddwch yn rhoi digon o dystiolaeth ar gyfer y meini prawf, mae'n annhebygol y bydd eich cais yn mynd ymhellach na'r cam sifftio. Amlinellir y meini prawf profiad yn yr adran meysydd i'w dangos (Profiad 1-3) yr hysbyseb swydd.

**Proffil Llwyddiant Ymddygiadau**

Nod y Fframwaith Proffil Llwyddiant yw asesu ymgeiswyr yn hyblyg yn erbyn ystod o elfennau a defnyddio amrywiaeth o ddulliau dethol. Mae hyn yn rhoi'r cyfle gorau posibl i ddod o hyd i'r person cywir ar gyfer y swydd, a gwella amrywiaeth a chynwysoldeb. Mae'r Fframwaith yn amlinellu 9 ymddygiad a ystyrir yn allweddol i sicrhau perfformiad llwyddiannus o fewn y Gwasanaeth Sifil. Ar gyfer pob ymddygiad, disgrifir yr hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol a rhoddir rhai enghreifftiau o ymddygiadau effeithiol ac aneffeithiol ar bob lefel. Yn eich cais, gofynnir ichi roi tystiolaeth, ar ffurf enghreifftiau o fywyd go iawn, o sut rydych wedi dangos yr ymddygiadau allweddol a nodir fel rhai sy'n hanfodol i'r rôl dan sylw. Bydd yr ymddygiadau gofynnol yn cael eu hamlinellu yn yr hysbyseb swyddi gwag.

Ar gyfer yr ymarfer hwn, gofynnir i chi roi tystiolaeth ar gyfer 2 ymddygiad (Ymddygiad 1-2). Caiff y dystiolaeth ei defnyddio i asesu sut rydych wedi ymddwyn yn y gorffennol, gan fod hyn yn rhoi syniad o sut y byddwch yn perfformio yn y dyfodol. Ysgrifennwch eich tystiolaeth mewn ffordd a fydd yn helpu'r panel i asesu pa mor addas yr ydych ar gyfer y rôl. Darllenwch ymlaen i gael cyngor am sut i ddewis ac ysgrifennu eich tystiolaeth.

**Sut ddylwn i ddarparu fy nhystiolaeth o ymddygiad a phrofiad?**

Gofynnir ichi yn y ffurflen gais ddarparu tystiolaeth yn erbyn meini prawf ymddygiad a phrofiad. Byddem yn disgwyl hyd at 250 o eiriau ar gyfer pob ymddygiad a phrofiad unigol y mae angen tystiolaeth ar ei gyfer. Dylech geisio rhoi cymaint o dystiolaeth ag y gallwch ar gyfer pob maes unigol, gan wneud y defnydd gorau o'r nifer geiriau a ganiateir. Rhowch dystiolaeth glir o'r holl ymddygiadau a'r profiadau angenrheidiol. Defnyddiwch y dull STAR i roi eich tystiolaeth (gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth am sut i ddrafftio eich ymateb gan ddefnyddio'r dull STAR).

Os na fyddwch yn gallu darparu tystiolaeth dda, ni fyddwch yn mynd ymhellach na'r broses sifftio, ac felly ni chewch eich cyf-weld.

I gael mwy o gyngor ar roi tystiolaeth o'ch ymddygiadau a'ch profiad, gweler Atodiad A: Darparu eich tystiolaeth.

**Llenwi'r adran "Cwestiynau Sy'n Benodol i Rôl"**

Rhowch ateb cadarnhaol neu negyddol i'r rhain. Dim ond os oes angen cymwysterau, sgiliau neu brofiad penodol er mwyn cyflawni'r rôl dan sylw y bydd y cwestiynau hyn yn ymddangos. Os na allwch gadarnhau eich bod yn cyflawni'r gofyniad/gofynion, ni fyddwn yn mynd â'ch cais ymhellach.

**Llenwi'r adran "Manylion Personol"**

Llenwch y meysydd ynghylch eich manylion personol, fel eich enw, eich cyfeiriad etc. Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi'r wybodaeth gywir ddiweddaraf, gan fod angen yr wybodaeth er mwyn symud eich cais ymlaen.

**Llenwi'r adran "Meini Prawf Gofynnol"**

Pwrpas y cwestiynau hyn yw penderfynu p'un a ydych yn gymwys i wneud cais am y swydd, yn unol â gofynion y Gwasanaeth Sifil o ran eich cenedl. Bydd yn rhaid ichi roi rhai manylion personol yn y ffurflen gais er mwyn inni allu prosesu eich cais yn effeithiol. Gofynnir ichi gadarnhau i ba genedl rydych chi'n perthyn a bod gyda chi hawl gyfreithiol i weithio yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn ofynnol er mwyn gweithio yn y Gwasanaeth Sifil. Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn y ffurflen gais, ni fyddwn yn mynd â'ch cais ymhellach. Os daw i'r amlwg yn nes ymlaen yn y broses nad ydych yn gymwys i wneud cais, efallai y caiff eich cais/cynnig ei dynnu'n ôl.

I ateb y cwestiynau am y meini prawf cymhwysedd, dewiswch o'r atebion yn y blychau.

**Llenwi'r adran "Atodi eich CV"**

Llenwch yr adran hon drwy uwchlwytho eich CV fel atodiad. Mae CV yn caniatáu ichi ddangos i'r panel recriwtio y sgiliau, y profiad a'r nodweddion personol sydd gyda chi i wneud y swydd yn effeithiol. Nid oes gyda ni dempled penodol ichi ei ddefnyddio, ond efallai y byddwch am roi mwy o wybodaeth am eich nodweddion personol a'r prif bethau rydych wedi'u cyflawni yn ystod eich gyrfa, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall yr ydych am ei rhoi inni am eich addysg, eich hyfforddiant a chymdeithasau proffesiynol rydych yn aelod ohonynt.

Sylwer, bydd y CV yn cefnogi tystiolaeth a ddarperir ar feini prawf ymddygiad a phrofiad, ond ni ddylid ei ddarparu yn lle'r dystiolaeth hon. Dylai'r CV roi unrhyw wybodaeth ychwanegol rydych chi'n teimlo sy'n berthnasol i'r swydd.

Os gofynnir am hyn yn yr hysbyseb swydd, gallwch atodi eich dogfen ychwanegol yn yr adran hon ar fformat .doc, .docx, .pdf, .xls neu .xlsx.

**Llenwi'r adran "Addysg"**

Rhowch fanylion eich addysg inni. Y sefydliad yw'r ysgol/coleg/prifysgol yr aethoch iddi/iddo, a'r pwnc yw'r hyn y gwnaethoch ei astudio yno. Mae'n hanfodol eich bod

yn rhoi'r wybodaeth gywir ddiweddaraf, gan y gallai hyn gael ei ystyried yn y broses sifftio. Os bydd cymhwyster penodol wedi'i nodi yn yr hysbyseb fel rhywbeth sy'n hanfodol neu'n ddymunol, a bod gyda chi'r cymhwyster, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r manylion.

Gallwch ychwanegu mwy o flychau os nad oes digon ohonynt i nodi eich holl gymwysterau.

**Llenwi'r adran "Dysgu a Datblygu"**

Rhowch fanylion unrhyw ddysg a chwrs/rhaglen ddatblygu ehangach a ddilynwyd a allai fod yn berthnasol i'r cais. Gallai hyn gynnwys cwrs/rhaglen ddatblygu bersonol nad oes gyda chi gymhwyster ar ei gyfer, ond sy'n berthnasol i'r swydd rydych yn gwneud cais amdani.

**Llenwi'r adran "Hanes Cyflogaeth"**

Nodwch fanylion eich cyflogaeth bresennol (neu ddiwethaf) ac ychwanegwch fanylion unrhyw gyflogaeth flaenorol. I ychwanegu manylion cyflogwr neu rôl arall, nodwch 'Ydw' i'r cwestiwn 'Ydych chi wedi gweithio yn rhywle arall?'. Bydd hyn yn creu mwy o le i roi gwybodaeth. Mae'n hanfodol eich bod yn darparu'r wybodaeth gywir ddiweddaraf, gan fod angen yr wybodaeth er mwyn symud eich cais ymlaen.

Bydd angen ichi nodi enwau eich cyflogwyr blaenorol, y swydd(i) oedd gyda chi a'r rheswm/rhesymau dros adael, a hynny ar gyfer y 3 blynedd diwethaf o leiaf (oni bai nad ydych wedi bod yn gweithio mor hir â hyn – rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch). Os nad ydych wedi cael eich cyflogi yn y gorffennol, nodwch 'Nac ydw' i'r cwestiwn 'Ydych chi'n was sifil ar hyn o bryd?', a nodwch 'Dim hanes cyflogaeth' yn y blwch 'Enw'r cyflogwr'.

**Llenwi'r adran "Cynllun Hyderus o ran Anabledd"**

Mae cynllun **Hyderus o ran Anabledd**, a weithredir gan Lywodraeth Cymru, yn golygu ein bod yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd dan sylw. Dewiswch eich atebion ynghylch y cynllun gwarantu cyfweliad a rhowch fanylion unrhyw ofynion am gymorth yn y cyfweliad, neu unrhyw wybodaeth yr hoffech inni fod yn ymwybodol ohoni mewn perthynas â'ch gofynion.

**Llenwi'r adran "Y Gymraeg"**

Dewiswch lefel eich gallu yn y Gymraeg mewn perthynas â'r sgiliau amrywiol a nodir, ac ym mha iaith y byddai'n well gyda chi gael eich asesu. Bydd eich lefel gallu'n fel arfer yn cael ei ystyried dim ond os nodir yn yr hysbyseb bod gallu yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer y swydd hon. Fodd bynnag, dymunwn weithiau ystyried sgiliau Cymraeg fel rhan o baru ymgeiswyr llwyddiannus â rolau priodol lle nad oes angen y Gymraeg ond a allai fod o fudd. Cadwch olwg am unrhyw wybodaeth yn ymwneud â hyn yn yr hysbyseb swydd, neu gyfathrebu yn y dyfodol yn ystod y broses recriwtio.

**Llenwi’r adran “Unrhyw Wybodaeth Arall”**

Cadarnhewch a ydych mewn perthynas agos neu’n perthyn i weithiwr presennol Llywodraeth Cymru neu Aelod o’r Senedd. Dewiswch “ydw” neu “nac ydw”. Ni fydd hyn yn eich atal rhag cael eich ystyried ar gyfer y swydd hon.

**Llenwi’r adran “Geirdaon”**

Bydd angen ichi roi enw dau ganolwr (gan gynnwys eich cyflogwr presennol neu eich cyflogwr diweddaraf) sy’n cwmpasu’r tair blynedd diwethaf o gyflogaeth o leiaf. Os ydych newydd adael yr ysgol neu’r coleg a heb brofiad o weithio, rhowch enw o leiaf un o’ch athrawon neu’ch darlithwyr, eich pennaeth neu’ch tiwtor personol.

**Sut gwnaethoch chi glywed am y swydd**

Rhowch wybod inni sut daethoch chi ar draws y swydd – at ddibenion monitro Llywodraeth Cymru y mae’r wybodaeth hon, er mwyn sicrhau ein bod yn hysbysebu yn y ffyrdd mwyaf effeithiol.

**Llenwi’r adran “Monitro Cyfleoedd Cyfartal”**

Llenwch yr adrannau sy’n ymwneud â chydraddoldeb – eich rhyw ac ati – yn ôl y gofyn. Os yw’n well gyda chi beidio ag ateb unrhyw un o’r cwestiynau, dewiswch ‘Gwell gennyf beidio â dweud’. Mae'r holl wybodaeth fonitro yn gwbl gyfrinachol, at ddibenion ystadegol er mwyn sicrhau bod polisïau'n cael eu cymhwyso'n deg. Er enghraifft, gall data ein helpu i wella ein prosesau recriwtio i nodi ble y gallwn gefnogi pobl â Nodweddion Gwarchodedig penodol yn well er mwyn lleihau rhwystrau neu unrhyw anfanteision sy’n deillio o weithdrefnau.

Dim ond gyda nifer cyfyngedig o bersonél awdurdodedig sy'n monitro'r data hwn y bydd yr wybodaeth fonitro yn cael ei rhannu. Cofiwch mai dim ond y panel dethol fydd yn gweld yr wybodaeth.

**Llenwi’r adran “Datganiad”**

Cofiwch ddarllen y datganiad. Os ydych yn cytuno â’r datganiadau ynghylch Diogelu Data, Cyfle Cyfartal a sut caiff eich cais ei brosesu, ticiwch y blwch i nodi eich bod yn cytuno.

DIM OND pan fyddwch yn hapus bod eich cais wedi’i gwblhau ac nad ydych am wneud mwy o newidiadau y dylech ddewis ‘Anfon’

**Cam 2: Y Broses Sifftio (llunio rhestr fer)**

Unwaith bydd y dyddiad cau wedi pasio, bydd y panel penodi yn ystyried yr holl geisiadau a ddaeth i law, ac yn sifftio’r rheini nad ydynt wedi darparu digon o dystiolaeth yn erbyn y meini prawf ymddygiad a phrofiad a nodwyd. Os ydych wedi gwneud cais o dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, rydych yn sicr o gael cyfweliad os ydych yn bodloni’r meini prawf gofynnol y cytunwyd arnynt gan y panel cyn y sifft. Bydd panel y sifft yn gosod y ceisiadau yn eu trefn ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio system sgorio safonol y cytunir arni. Os na fyddwch yn llwyddo i fodloni’r meini prawf sy’n ofynnol er mwyn cael eich gwahodd i gam nesaf y broses, byddwn yn rhoi gwybod ichi drwy anfon e-bost i’r cyfeiriad rydych wedi’i gofrestru.

Caiff pob ymgeisydd wybod canlyniad y sifft. Os cewch gynnig cyfweliad neu fformat asesu arall, cewch o leiaf 5 diwrnod gwaith o rybudd. Byddwch yn cael cadarnhad o'r trefniadau ar gyfer y cyfweliad, gan gynnwys y lleoliad, y dyddiad a'r amser. Y cyfnod arferol o 5 diwrnod gwaith yw'r cyfnod lleiaf a ystyrir a bydd yn cael ei ymestyn os oes angen mwy o amser i roi addasiadau ar waith mewn perthynas ag anabledd.

Os na fyddwch yn llwyddo i fodloni'r meini prawf sy'n ofynnol er mwyn cael eich gwahodd i gam nesaf y broses, cewch wybod drwy e-bost a chewch adborth i'ch helpu gyda cheisiadau yn y dyfodol.

**Cam 3: Y Broses Gyf-weld**

Os llwyddwch i basio'r cam sifftio, cewch eich gwahodd i gyfweliad. Byddwn yn holi cwestiynau sy'n seiliedig ar y meini prawf ymddygiadau a phrofiad a nodwyd yn yr hysbyseb. Bydd gofyn i chi hefyd gymryd rhan mewn ymarfer briffio llafar a sefyll y prawf gwybodaeth GSR (bydd hyn yn cael ei egluro yn yr hysbyseb swydd a / neu'r e-bost yn eich gwahodd i gyfweliad).

**Y Panel**

Fel rheol, tri o bobl fydd ar banel y cyfweliad: y Cadeirydd, sy'n gyfrifol, ymhlith pethau eraill, am ofalu bod y broses yn dilyn egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored; a dau aelod arall. Caiff rhai paneli gynnwys dim ond dau unigolyn.

**Iaith Asesu**

Byddwn yn ceisio sicrhau y cewch eich cyf-weld yn eich dewis iaith, Cymraeg neu Saesneg (gofynnir ichi nodi hyn yn y ffurflen gais). Os dewiswch gael cyfweliad Cymraeg, bydd angen inni hefyd brofi eich gallu yn Saesneg, felly caiff rhan o'r asesiad ei gynnal yn Saesneg. Cewch wybod beth yw'r trefniadau ymlaen llaw. Mewn rhai achosion, os na allwn drefnu panel Cymraeg, efallai y bydd angen defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er budd unrhyw un o'r panel nad yw'n siarad Cymraeg. Os felly, cewch wybod cyn y cyfweliad.

**Beth fydd yn digwydd yn yr asesiad?**

Ar hyn o bryd, cynhelir pob asesiad ar-lein (oni chytunir ar addasiad rhesymol gydag Adnoddau Dynol a allai gynnwys dull gweithredu gwahanol). Drwy gydol y broses, byddwch yn cael eich asesu yn erbyn 2 faen prawf yn ymwneud â phrofiad a 3 maen prawf yn ymwneud ag ymddygiad o Fframwaith Proffiliau Llwyddiant y Gwasanaeth Sifil;

- Gwybodaeth Ymchwil
- Rheoli Ymchwil
- Cyfathrebu a Dylanwadu
- Cyflawni'n Brydlon
- Arweinyddiaeth

Mae tair elfen i'r asesiad.

Diben y broses asesu yw:

- Profi eich addasrwydd ar gyfer gofynion y swydd
- Rhoi cyfle i ymgeiswyr fynegi eu barn a chyflwyno eu tystiolaeth

- Sgorio ymgeiswyr yn seiliedig ar y gofynion a nodwyd ar gyfer y swydd
- Argymell pa ymgeisydd ddylai gael cynnig y swydd a llunio trefn teilyngdod yn seiliedig ar y sgorau a gafwyd
- Eich helpu chi i benderfynu a yw'r swydd yn addas i chi.

**1. Prawf Gwybodaeth Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) – 45 munud**

Os nad ydych chi eisoes yn aelod o Broffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, cewch wahoddiad i sefyll Prawf Gwybodaeth GSR ar-lein ar wahân i'r briff llafar a chyfweliad. Mae'r Prawf Gwybodaeth yn asesu eich cymhwysedd a'ch sgiliau technegol ar agweddau allweddol ar ddulliau meintiol ac ansoddol, dyluniad ymchwil a dehongli data sy'n ofynnol i fod yn aelod o GSR. Mae'r prawf yn cynnwys cwestiynau amlddewis.

Cewch ddolen i'r prawf drwy e-bost ar ôl cael cadarnhad eich bod wedi pasio'r cam sifftio ac fe gewch gyfnod penodol o amser i fewngofnodi ar y platfform ar-lein a sefyll y prawf.

Os ydych chi wedi sefyll, ac wedi pasio Prawf Gwybodaeth GSR o'r blaen fel rhan o gais llwyddiannus ar gyfer rôl GSR mewn adran arall yn y llywodraeth, ni fydd angen ichi sefyll y prawf eto. Rhowch wybod inni cyn gynted â phosibl os yw hyn yn wir fel y gallwn gadarnhau eich bod wedi pasio. Ni fydd angen ichi sefyll y prawf eto os ydych chi wedi pasio fel rhan o broses recriwtio Swyddog Ymchwil / Uwch-swyddog Ymchwil Llywodraeth Cymru yn 2025.

**2. Briffio Llafar a 3. Cyfweliad (gyda'i gilydd) – tua 1 awr**

**Briffio Llafar**

Defnyddir ymarfer briffio llafar i brofi'r sgiliau ymddygiad a phroffesiynol sydd eu hangen i fod yn aelod o'r GSR. Cewch senario polisi ffug a set o ddeunyddiau perthnasol i'w hadolygu. Cewch hefyd set o dri chwestiwn y bydd angen ichi fynd i'r afael â nhw mewn cyflwyniad 10 munud o hyd i'r panel briffio llafar. Gofynnir cwestiynau atodol ichi ar eich cyflwyniad a'r dystiolaeth yn y deunyddiau a ddarperir. Cewch ragor o fanylion am yr ymarfer ar ôl cael eich gwahodd i gyfweliad. Bydd y briff llafar yn cael ei asesu gan ddefnyddio'r un matrics sgorio â'r cyfweliad, a bydd yn rhan o'ch sgôr cyffredinol.

Bydd y briff llafar yn eich asesu chi yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Gwybodaeth Ymchwil
- Rheoli Ymchwil
- Cyfathrebu a Dylanwadu

**Cyfweliad**

Yn y cyfweliad, bydd y Panel yn ceisio darganfod a ydych yn bodloni'r meini prawf ymddygiad a phrofiad a nodwyd ar gyfer y rôl, sef:

- Cyflawni yn brydlon
- Arweinyddiaeth

Bydd angen ichi fod yn barod i roi atebion yn dangos sut rydych yn bodloni'r rhain. Bydd y cyfweliad yn gyfle i'r panel recriwtio gadarnhau, holi neu ymchwilio ymhellach i'r dystiolaeth a roddwyd yn eich cais. Bydd y gwaith rydych eisoes wedi'i wneud i gwblhau eich cais yn eich cynorthwyo i baratoi ar gyfer y cyfweliad. Dylech sicrhau eich bod yn gwbl gyfarwydd â'r dystiolaeth yn eich cais. Cofiwch y bydd y panel yn ceisio gweld o'r dystiolaeth yn eich ffurflen gais a'r cyfweliad a ydych yn debygol o fedru ymgymryd â dyletswyddau'r swydd benodol. Ni fydd y panel yn cael gofyn cwestiynau ichi am eich amgylchiadau personol.

Efallai y gofynnir ichi sut, yn eich barn chi, y gall materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb gael eu gwreiddio wrth ddylunio a rheoli ymchwil, fel rhan o'r briff llafar neu'r cyfweliad. Nid oes angen profiad uniongyrchol o gyd-destun Llywodraeth Cymru, ond dyma ddeunydd darllen pellach a all fod o gymorth i chi:

- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Beth am Godi'r To: Model Cymdeithasol o Anabledd (YouTube)
- Strategaeth Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd

**Paratoi ar gyfer y cyfweliad**

Dyma rai cynghorion defnyddiol i'ch helpu i baratoi ar gyfer eich cyfweliad:

- trefnwch 'ffug-gyfweliad' gyda ffrind, aelod o'r teulu neu gydweithiwr
- ymchwiliwch i'r maes gwaith rydych yn gwneud cais i weithio ynddo – ewch i wefan Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth
- efallai y byddwch am siarad â'r rheolwr llinell sy'n recriwtio er mwyn deall y rôl yn well – bydd enw cyswllt ar yr hysbyseb swydd
- paratowch fwy o enghreifftiau nag yr ydych wedi'u nodi yn eich ffurflen gais. Gallai'r panel ofyn ichi am fwy o fanylion ac enghraifft arall a fydd yn eich helpu i roi'r dystiolaeth sydd ei hangen.

Cofiwch y model "STAR" sy'n gallu fod o help wrth baratoi am gyfweliad, ac yn ystod cyfweliad wrth ymateb i gwestiynau, trwy roi strwythur clir i'ch atebion. Gweler Atodiad A: Darparu eich tystiolaeth i gael mwy o fanylion am y model STAR.

**Cyf-weld ar sail Ymddygiadau**

Nod cyfweliad ar sail ymddygiadau yw ceisio cael gwybod sut rydych wedi ymddwyn a defnyddio sgiliau penodol i ddelio â heriau a phroblemau yn y gorffennol, ar y sail ei bod yn debygol mai dyna sut y byddwch yn perfformio yn y dyfodol. Gofynnir ichi felly roi tystiolaeth mewn perthynas â meini prawf ymddygiad a phrofiad a ddiffiniwyd ymlaen llaw yn yr hysbyseb.

Nod cwestiynau'r cyfweliad fydd caniatáu ichi roi tystiolaeth o'r meini prawf ymddygiadau a phrofiad sy'n ofynnol, drwy ddefnyddio enghreifftiau perthnasol. Cofiwch, er y bydd y panel yn chwilio am dystiolaeth o'r meini prawf ymddygiad/profiad, gwnewch yn siŵr eich bod hefyd yn ateb y cwestiwn maent wedi'i ofyn. Cofiwch wrando ar y cwestiwn, felly, a dewis yr enghraifft fwyaf priodol a fydd yn eich galluogi i roi tystiolaeth o'r meini prawf ymddygiad/profiad ac ateb y cwestiwn yn llawn.

Bydd y panel yn asesu eich tystiolaeth yn erbyn matrics sgorio Llywodraeth Cymru – gweler Atodiad C. Bydd y panel yn cytuno ymlaen llaw ar y meini prawf ar gyfer y rôl, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gyson yn achos pob ymgeisydd.

**Y Cyfweliad**

Bydd y panel am eich gweld ar eich gorau yn y cyfweliad, ac yn gwneud eu gorau i roi cyfle ichi ddangos eich bod yn bodloni'r meini prawf. Ni fyddant yn ceisio eich dal. Byddant eisoes wedi darllen am eich rhinweddau yn eich ffurflen gais, ac am gael darlun llawnach o'r hyn y gallwch ei wneud wyneb yn wyneb. Yn gyffredinol, bydd y cyfweliad yn dilyn y strwythur canlynol:

- Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno aelodau eraill y panel ac yn esbonio fformat y cyfweliad (gan gynnwys pwy fydd yn gofyn cwestiynau am bob maes a asesir) a bydd yn rhoi amcan ichi o hyd pob rhan o'r cyfweliad (bydd hyn yr un fath i bob ymgeisydd). Cewch chithau gyfle i holi am fformat y cyfweliad. Gofynnir ichi hefyd a oes unrhyw amgylchiadau anarferol wedi codi a allai effeithio ar eich perfformiad, ee profedigaeth, damwain car, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw beth yn amharu ar eich perfformiad. Os bydd rhywbeth wedi codi, cewch gyfle i aildrefnu eich cyfweliad. Os dewiswch fwrw ymlaen â'r cyfweliad, ni fydd modd ichi ofyn am gyfweliad arall wedyn os byddwch yn teimlo na roesoch eich perfformiad gorau.
- Bydd rhan gyntaf y cyfweliad yn cynnwys ymarfer briffio llafar, gan gynnwys cyflwyniad a chwestiynau ategol, ac ni fydd yn para mwy na 30 munud.
- Bydd y cyfweliad yn dilyn yr ymarfer briffio llafar ar ôl egwyl fer. Gofynnir pedwar cwestiwn ichi; tri chwestiwn yn ymwneud ag ymddygiad ac un cwestiwn yn benodol i'r swydd.
- Yna bydd pob aelod o'r panel yn cymryd tro i ofyn cwestiynau. Gwaith y Cadeirydd yw sicrhau bod y rhain yn canolbwyntio ar brofi'r meini prawf ymddygiad a phrofiad ar gyfer y swydd a bod y cyfweliad neu'r asesiad yn rhedeg i amser.

- Bydd y panel cyf-weld yn sicrhau bod addasiadau recriwtio yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw ymgeisydd anabl sydd wedi nodi gofynion penodol ar eu ffurflen gais, ar gyfer unrhyw agwedd o'r broses gyf-weld. Mae'n bwysig, felly, eich bod yn nodi unrhyw ofynion cyn gynted â phosibl – mae yna adran benodol yn y ffurflen gais i nodi'r rhain.
- Ar ddiwedd y cyfweliad, bydd y Cadeirydd yn rhoi cyfle ichi ofyn cwestiynau am y swydd.

**Cam 4: Ar ôl y Cyfweliad**

**Cyhoeddi'r Canlyniad**

Ar ddiwedd y cyfweliad, bydd Cadeirydd y panel yn rhoi syniad ichi ynghylch pryd y cewch wybod y canlyniad. Caiff ei anfon drwy e-bost. Dim ond adborth ysgrifenedig byr am y cyfweliad y bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn ei dderbyn ond gobeithio y bydd yn ddefnyddiol wrth ystyried gwneud ceisiadau yn y dyfodol.

**Beth ddylech chi ei wneud os nad ydych yn llwyddiannus**

Cymerwch ychydig amser i feddwl. Edrychwch ar yr adborth a gewch yn eich e-bost a'r pwyntiau a wneir. Arhoswch yn bositif ac edrychwch ar yr hyn y gwnaethoch chi ei gyflawni. Rydych yn siŵr o gael adborth gwahanol oddi wrth wahanol baneli ar geisiadau, hyd yn oed ar gyfer swyddi tebyg neu sydd union yr un fath â'i gilydd. Penderfynir ar eich sgôr cyffredinol drwy gonsensws pob aelod panel.

**Dechrau yn eich swydd newydd (ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus)**

Unwaith byddwch wedi cael gwybod eich bod wedi llwyddo, bydd y Ganolfan Gydwasanaethau yn anfon pecyn dechreuwr atoch, a fydd yn cynnwys contract amodol, dogfennau fetio a rhai dogfennau eraill perthnasol. Bydd y pecyn yn sôn am ambell beth y bydd angen ichi ei wneud er mwyn ichi allu dechrau gweithio gyda ni cyn gynted â phosibl, gan gynnwys sut i drefnu i fynd i Glinig Fetio, a pha ddogfennau sydd angen i chi eu i'r Ganolfan Gydwasanaethau, cyn y gallwn gytuno ar ddyddiad dechrau. Byddwn yn cysylltu â'ch canolwyr hefyd ar y pwynt hwn.

**Cwynion**

Os byddwch yn teimlo eich bod wedi'ch trin yn annheg, neu os oes gyda chi gŵyn am sut cafodd y broses ei chynnal, gallwch naill ai ysgrifennu at y Pennaeth Adnoddau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays 2, Caerdydd CF10 3NQ neu anfonwch e-bost i desggymorthcydwasanaethau@llyw.cymru. Os ydych yn anhapus gyda chanlyniad y broses gwyno ac yn teimlo na chadwyd at egwyddorion penodi ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth deg ac agored, cewch fynd â'r mater ymhellach drwy gysylltu â Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil (Civil Service Commission), 3rd Floor, 35 Great Smith Street, London SW1P 3BQ.

# ATODIAD – eich helpu i baratoi

**Atodiad A: Darparu eich tystiolaeth**

Dewiswch eich enghreifftiau cryfaf bob amser a fydd yn caniatáu ichi roi tystiolaeth o sut rydych yn bodloni'r meini prawf ymddygiad a phrofiad yng nghyd-destun y swydd.

Wrth ddewis eich enghreifftiau, ystyriwch y cyngor canlynol:

- Seiliwch eich enghreifftiau ar brofiad blaenorol.
- Defnyddiwch y model 'STAR' i gyflwyno eich tystiolaeth. Gallai dull STAR hefyd eich helpu i gyflwyno eich tystiolaeth drwy roi strwythur a ffocws i'ch enghreifftiau yn y ffurflen gais a'r cyfweliad:

  **1. Sefyllfa (Situation) –** yn fyr, disgrifiwch y cyd-destun a'ch rôl chi;

  **2. Tasg (Task) –** yr her neu'r dasg benodol oedd yn eich wynebu;

  **3. Gweithredu (Action) –** beth wnaethoch chi, sut a pham;

  **4. Canlyniad (Result) –** beth gwnaethoch chi ei gyflawni drwy'r hyn a wnaethoch chi.
- Cadwch fanylion y sefyllfa a'r dasg yn gryno. (2-3 brawddeg mewn enghraifft ysgrifenedig).
- Canolbwyntiwch ar y gweithredu a'r canlyniad. Dylai'r rhan am weithredu gyfrif am fwyafrif eich ateb.
- Os nad oedd y canlyniad yn gwbl lwyddiannus, disgrifiwch yr hyn a ddysgoch o'r profiad a beth y byddech yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.
- Efallai y bydd STAR yn eich helpu i gofio am bob pwynt mae angen ichi ei wneud. Gallai eich helpu i ddrafftio eich cais a sicrhau eich bod yn sôn am bopeth wnaethoch chi'n bersonol. Cofiwch ganolbwyntio ar eich cryfderau. Gallai eich helpu yn y cyfweliad hefyd, drwy roi strwythur ichi ei ddilyn wrth ateb. Mae yna fframweithiau eraill ar gael hefyd i'ch helpu i strwythuro eich tystiolaeth. Mae'n werth ichi dreulio peth amser yn ymchwilio i dechnegau gwneud cais a thechnegau cyfweliad fel y gallwch ddod o hyd i'r fframwaith sy'n gweddu orau i chi.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod y panel sifftio yn gwybod beth yw'r sefyllfa. Dim ond yr hyn rydych chi wedi'i nodi yn y ffurflen gais y byddant yn ei wybod, a dim ond yr hyn rydych chi wedi'i ysgrifennu y gallant ei asesu.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn sôn am sut yr aethoch ati i ddatrys problemau/goresgyn rhwystrau.
- Disgrifiwch yr hyn roeddech chi'n ei feddwl, sut roeddech chi'n teimlo a'r hyn a wnaethoch chi yn hytrach na disgrifio'r sefyllfa yn unig.
- Peidiwch â mynd i hwyl yn adrodd stori. Dywedwch ddigon i ddangos sut yr aethoch chi ati i gyflawni'r dasg
  - pam yr aethoch ati yn y ffordd honno
  - unrhyw broblemau y daethoch ar eu traws

  - cofiwch gynnwys canlyniadau a dangos pam roedd yr hyn a wnaethoch yn effeithiol a/neu sut y gallech fod wedi gwella'r hyn a wnaethoch

- Gwnewch yn siŵr bod eich enghreifftiau ar y lefel iawn ar gyfer y radd. Darllenwch y canllawiau ar HEO & SEO (Lefel 3 yn y ddogfen Proffiliau Llwyddiant), i'ch helpu i ddewis enghreifftiau priodol ar y lefel gywir.
- Gwnewch restr o'r holl bethau rydych wedi'u gwneud yn dda yn eich swydd dros y 2 flynedd ddiwethaf. Efallai y bydd adroddiadau perfformiad o gymorth. Ar gyfer pob un o'r rhain, nodwch sut y cyflawnwyd y dasg, a pha sgiliau ac ymddygiadau a ddefnyddiwyd.
- Ar gyfer pob enghraifft, nodwch pa feini prawf ymddygiad neu brofiad o'r Proffiliau Llwyddiant y mae'n berthnasol iddo.
- Casglwch eich tystiolaeth a'i dadansoddi cyn mynd ati i ysgrifennu eich enghreifftiau – fe synnwch faint o dystiolaeth fydd gyda chi.
- Defnyddiwch dystiolaeth o'r gweithle os oes modd. Ond os oes gyda chi gyfrifoldebau y tu allan i'r gwaith, efallai y gallwch ddefnyddio'r rheini fel tystiolaeth o'r ymddygiadau/meini prawf sydd yr un mor briodol.
- Gan ein bod yn recriwtio ar gyfer y proffesiwn Ymchwil Gymdeithasol, rydym yn argymell eich bod yn defnyddio ymchwil yn y rhan fwyaf o enghreifftiau lle bo hynny'n bosibl.
- Ewch drwy eich tystiolaeth a'ch enghreifftiau gyda'ch rheolwr llinell neu â chydweithiwr – mae ail neu drydydd pâr o lygaid yn ddefnyddiol bob amser
- Byddwch yn onest bob amser. Byddwn yn gofyn ichi roi enghreifftiau yn y cyfweliad, ac os ydych wedi sôn am rywbeth sy'n anghyfarwydd ichi, mae'n bosibl na fyddwch yn gallu rhoi digon o dystiolaeth.

**Ysgrifennu eich Tystiolaeth**

Byddwch mor gryno â phosibl wrth roi eich enghreifftiau. Gan mai dim ond hyn a hyn o eiriau y cewch eu defnyddio, mae'n hanfodol eich bod yn gwneud y defnydd gorau ohonynt. Canolbwyntiwch ar yr hyn wnaethoch chi. Ystyriwch y cyngor canlynol:

- Ysgrifennwch ddrafft cyntaf, yna rhowch ddigon o amser ichi'ch hun i'w wella.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cynnwys pob elfen sydd ei hangen.
- Cyfrifwch y geiriau – peidiwch â mynd dros 250 gair fesul maen prawf ymddygiad/profiad.
- Ystyriwch eich fformat – fyddai pwyntiau bwled yn gweithio yn hytrach na pharagraffau?
- Ysgrifennwch mewn iaith glir sy'n ramadegol gywir, gan gynnwys y sillafu.
- Peidiwch â defnyddio jargon, talfyriadau na thermau arbenigol.
- Ysgrifennwch yn y gorffennol, hy gwnes, gwiriais.
- Defnyddiwch ferfau gweithredol (gweler Atodiad B).
- Defnyddiwch 'fi' nid 'ni'. Eich rôl chi sy'n bwysig a sut y gwnaethoch chi gyfrannu at y canlyniad.
- Defnyddiwch frawddegau byr, yn sôn am werth eich rôl bersonol chi.

- Defnyddiwch eich geiriau eich hun. Ystyriwch ddefnyddio berfau gweithredol i gael mwy o effaith (gweler Atodiad B).

**Atodiad B: Defnyddio Iaith Weithredol**

Wrth lunio eich enghreifftiau i brofi'ch cymwyseddau, ystyriwch ddefnyddio berfau gweithredol sy'n creu mwy o effaith ac argraff. Mae defnyddio'r ffurf orffennol hefyd yn creu synnwyr o fod wedi cwblhau neu gyflawni amcanion.

Efallai y bydd hyn yn eich helpu i ddefnyddio llai o eiriau.

Peidiwch â defnyddio: Roeddwn i'n gyfrifol am drefnu rhaglen o siaradwyr.

Defnyddiwch: Trefnais raglen o siaradwyr.

Dyma restr o ferfau gweithredol defnyddiol:

A – addasu, arfarnu, asesu, adeiladu, arddangos, annog, arwain, arloesi, atgoffa, atgyfnerthu, ategu, adfywio, addysgu

B – bwriadu

C – cyflawni, cwblhau, cynghori, cymhwyso, cymeradwyo, cyrraedd, cyfrifo, cyfleu, canoli, coetsio, cyflenwi, cyfeirio, cofnodi, calonogi, cynllunio, cynhyrchu, creu, cyfuno, cynyddu, cychwyn, cyfarwyddo, cyf-weld, cyflwyno, cydgysylltu, cyd-drefnu, cael, cyfrannu, cymryd rhan, cynnig, cefnogi

D – dadansoddi, diffinio, dirprwyo, dangos, datblygu, dyfeisio, dosbarthu, dosrannu, didoli, dewis, dylanwadu, dechrau, dehongli, darbwyllo, datrys, darparu, deall, dilysu
E – ehangu, ennill, ennyn

G – gweinyddu, gwirio, golygu, gweithredu, gwella, gwerthu, gweddnewid, gwerthfawrogi, gwirfoddoli

H – helpu, hyfforddi, hyrwyddo, hwyluso

L – lansio

LL – lleihau, llywio

M – meithrin, meddwl, mentora, mireinio

N – nodi, negodi

P – penodi, penderfynu, pennu, perswadio, prif-ffrydio, profi, pwyso ar, pwyso a mesur

RH – rheoli, rhwydweithio

S – sbarduno, saernïo, sicrhau, sefydlu

T – trefnu

Y – ystyried, ysgogi, ymgorffori, ysbrydoli, ymchwilio, ymgymryd â, ysgrifennu

**Atodiad C – Matrics Sgorio**

Yn y cam ymgeisio, bydd y dystiolaeth ymddygiad a phrofiad yn cael ei sgorio ar raddfa o 1-7 gan ddefnyddio'r matrics sgorio a ganlyn.

| Sgôr | Esboniad |
|---|---|
| 7 | Prawf Rhagorol<br><br>Mae'r dystiolaeth a ddarperir yn llwyr ragori ar ddisgwyliadau ar y lefel hon |
| 6 | Prawf cryf<br><br>Dangosir tystiolaeth gadarnhaol sylweddol; gan gynnwys rhywfaint o dystiolaeth o ragori ar ddisgwyliadau ar y lefel hon |
| 5 | Prawf da<br><br>Dangosir tystiolaeth gadarnhaol sylweddol o'r cymhwysedd neu'r ymddygiad |
| 4 | Prawf Derbyniol<br><br>Dangosir tystiolaeth gadarnhaol ddigonol ac ni fyddai unrhyw dystiolaeth negyddol yn achosi pryder |
| 3 | Prawf Gweddol<br><br>Dangosir tystiolaeth gadarnhaol weddol ond dangosir rhywfaint o dystiolaeth negyddol |
| 2 | Bron dim prawf<br><br>Dangosir tystiolaeth gadarnhaol gyfyngedig a/neu dystiolaeth negyddol yn bennaf |
| 1 | Dim Prawf<br><br>Ni ddangosir unrhyw dystiolaeth gadarnhaol a/neu dangosir tystiolaeth negyddol sylweddol |